# Datganiad o Fwriad ar gyfer ECO4

**Datganiad o Fwriad Cymhwysedd Hyblyg ECO4 Cyngor Dinas Casnewydd**

**Enw'r Awdurdod Lleol: Cyngor Dinas Casnewydd**

**Dyddiad Cyhoeddi: 14/06/2023**

**Rhif y fersiwn: F.1**

**Cyhoeddi ar y wefan: www.newport.gov.uk**

Mae'r datganiad hwn yn amlinellu Meini prawf cymhwysedd hyblyg Cyngor Dinas Casnewydd ar gyfer cynllun Rhwymedigaeth Cwmni Ynni (ECO4) o fis Ebrill 2022 - Mawrth 2026.

Bydd cynllun ECO4 yn canolbwyntio ar roi cymorth i aelwydydd incwm isel ac agored i niwed. Bydd y cynllun yn gwella'r cartrefi lleiaf ynni-effeithlon ac yn helpu i gyflawni ymrwymiadau tlodi tanwydd a sero net Llywodraeth y DU.

"ECO4 Hyblyg" yw enw dull hyblyg Awdurdodau Lleol o adnabod aelwydydd tlawd yn nhermau tanwydd ac aelwydydd sy'n agored i niwed, fyddai'n cael budd o fesurau arbed gwres ac ynni.

Mae'r Cyngor yn croesawu llwybrau cymhwysedd ECO4 Hyblyg gan eu bod yn helpu'r Cyngor gyda'i gynlluniau i wella cartrefi'r rhai sydd mewn tlodi tanwydd neu mewn perygl oherwydd yr oerfel.

Mae'r Cyngor yn cyhoeddi'r Datganiad o Fwriad hwn (DoF), ar y **14/06/2023** i gadarnhau y bydd pob un o'r cartrefi a gaiff eu datgan yn ateb gofynion o leiaf un o'r pedwar llwybr sydd ar gael isod:

**Llwybr 1:**Tai Bandiau D-G y Weithdrefn Asesu Safonol lle mae'r perchennog yn byw yn yr eiddo a Thai E-G yn y sector rhent preifat sydd ag incwm llai na £31,000. Nid yw maint, cyfansoddiad na rhanbarth yr eiddo yn effeithio ar y cap.

**Llwybr 2:**Tai Bandiau E-G y Weithdrefn Asesu Safonol lle mae'r perchennog yn byw yn yr eiddo ac aelwydydd y sector rhent preifat sy'n bodloni cyfuniad o'r is-feini prawf canlynol:

| |
|---|
| **Is-faen prawf 1)** Cartrefi yn Lloegr mewn Ardal Allbwn Uwch haen is 1-3 (LSOA);[1]neu gartrefi mewn  LSOA 1-3 ar Fynegai Cymru Amddifadedd Lluosog 2019;[2], neu'r Mynegai Amddifadedd Lluosog ar gyfer 2020 a gyhoeddwyd gan Lywodraeth yr Alban[3] |
| **Is-faen prawf 2)** Deiliaid tai sy'n cael gostyngiad yn y Dreth Gyngor (ar sail incwm isel yn unig). |
| **Is-faen prawf 3)** Deiliaid tai mewn perygl o fyw mewn cartref oer fel y nodwyd yng Nghanllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE). Dim ond un o'r rhestr y gellir ei ddefnyddio, ac eithrir yr is-faen prawf 'incwm isel'. |
| **Is-faen prawf 4)** Deiliad tŷ sy'n cael prydau ysgol am ddim oherwydd incwm isel. |
| **Is-faen prawf 5)** Deiliad tŷ sy'n cael cymorth drwy gynllun ALl i roi cymorth i aelwydydd incwm isel ac agored i niwed at ddibenion Canllaw NICE, a hynny'n glir yn yr enw a'r disgrifiad. |
| **Is-faen prawf 6)** Aelwyd wedi'i gyfeirio at yr Awdurdod Lleol gan y cyflenwr ynni neu Gyngor ar Bopeth neu Gyngor ar Bopeth yr Alban, oherwydd eu bod yn cael trafferth talu eu biliau trydan a nwy. |

*Sylwch na ellir defnyddio is-feini prawf 1 a 3 gyda'i gilydd.

** Na chymysgwch hyn â pholisïau Llywodraeth Cymru i gynnig prydau ysgol am ddim i bob plentyn ysgol

**Llwybr 3:**Mae'r llwybr yn berthnasol i dai bandiau D-G SAP lle mae'r perchennog yn byw yn yr eiddo, neu dai bandiau E-G yn achos y sector rhent preifat. I ddilyn y llwybr hwn, rhaid bod yr eiddo wedi'i nodi'n  agored i niwed gan berson cofrestredig ar y Gofrestr Meddygon Teulu, Bwrdd Iechyd yng Nghymru, Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG, neu Ymddiriedolaeth GIG. Rhaid hefyd iddyn nhw nodi y gallai cyflwr iechyd rhywun waethygu oherwydd oerfel yn y cartref.  Gall y cyflyrau iechyd hyn fod yn gardiofasgwlaidd, yn anadlol, yn imiwn ataliedig, neu'n gysylltiedig â symudedd cyfyngedig.

**Llwybr 4:**Tai bandiau D-G y Weithdrefn Asesu Safonol lle mae'r perchennog yn byw ynddo, a thai E-G yn achos eiddo rhent preifat, sy'n cael atgyfeiriad dan Lwybr 4: Targedu Pwrpasol. Gall cyflenwyr ac ALlau gyflwyno cais i'r adran Diogelwch Ynni a Sero Net os ydyn nhw wedi adnabod aelwyd incwm isel ac agored i niwed heb gymhwysedd i ddilyn y llwybrau eraill.

---

1 https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/835115/IoD2019_Statistical_Release.pdf

2 https://www.llyw.cymru/mynegai-amddifadedd-lluosog-cymru-diweddariad-llawn-ir-mynegai-gyda-graddfeydd-2019

## Datganiad a chadarnhad gwirio tystiolaeth

Dylai pob aelwyd a allai fod yn gymwys wneud cais drwy Gyngor Dinas Casnewydd neu un o'u gosodwyr Rhwymedigaeth Cwmni Ynni cymeradwy i sicrhau y gall naill ai elwa o'r cynllun neu gael ei hasesu i weld a yw'n gymwys dan unrhyw raglen berthnasol arall.
Bydd y swyddog isod yn gyfrifol am wirio a dilysu datganiadau a'r dystiolaeth gysylltiedig a gyflwynir ar ran yr awdurdod lleol:

**Teitl y Swydd:** Rheolwr Addasiadau; Uwch Syrfëwr

## Llofnod gorfodol y Prif Swyddog Gweithredol neu'r person cyfrifol penodedig

Bydd Cyngor **XXXXXX** yn gweinyddu'r cynllun yn ôl Gorchymyn Trydan a Nwy (Rhwymedigaeth Cwmni Ynni) 2022 (Gorchymyn ECO4) a bydd yn nodi aelwydydd cymwys trwy broses gwneud cais Ofgem. Bydd Prif Swyddog Gweithredol y Cyngor yn goruchwylio'r broses o nodi aelwydydd cymwys dan ECO Hyblyg.

Bydd y wybodaeth am gymhwysedd yn cael ei storio'n ddiogel yn unol â pholisi diogelu data'r Cyngor, Cod Rhannu Data Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, a chanllawiau Diogelwch Ynni a Sero Net.

**Llofnod:**

**Enw:** Silvia Gonzalez-Lopez

**Teitl y Swydd:** Pennaeth yr Amgylchedd a Gwarchod y Cyhoedd

**Dyddiad y llofnod: 14/06/2023**

Am unrhyw ymholiadau cyffredinol sy'n ymwneud â'r DoF hwn, cysylltwch â Homeenergy@newport.gov.uk